---

**Cyfarfod o Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 19 Awst 2020**
**11:00 – 12:45**
**MS Teams**
**Cofnodion**

---

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**
Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Vaughan Gething AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd)
Y Cyng. Carol Clement-Williams (Castell-nedd Port Talbot)
Y Cyng. Hugh Evans (Sir Ddinbych) – yn dirprwyo i'r Cyng. Mark Pritchard
Y Cyng. Phil Murphy (Sir Fynwy) – yn dirprwyo i'r Cyng. Peter Fox

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**
Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlC
Jon Rae - Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Merion Rushworth – Pennaeth Cyllid, Casnewydd (yn dirprwyo i Nigel Aurelius)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Partneriaethau Cyllid a'r Gweithlu, Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Pennaeth Cyllid Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Sarah Govier – Pennaeth Gwariant Cyhoeddus
Gareth Griffiths – Pennaeth Talu am Ofal
Neal O'Leary – Cyfarwyddwr Rhaglen – Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif
Alex Bevan – Cynghorydd Arbennig
Sara Faye – Cynghorydd Arbennig

**<u>YMDDIHEURIADAU</u>**
Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Peter Fox (Sir Fynwy)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn hwyr oherwydd y llifogydd yn ardal Abertawe, a chynhaliwyd rhan gyntaf y cyfarfod o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Croesawodd y Gweinidog Cyllid yr aelodau i drydydd cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid yn 2020, gan gofnodi'r ymddiheuriadau. Bu'n rhaid i'r Gweinidog Addysg anfon ymddiheuriadau ar fyr rybudd, oherwydd canlyniadau arholiadau'r ysgolion.

## Eitem 2: Cofnodion a Materion sy'n codi o'r Cyfarfod Blaenorol

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Bellach nid oedd angen cam gweithredu o dan baragraff 24 yn sgil y llythyron dilynol, ac roedd cam gweithredu o dan baragraff 42 i ddosbarthu cylch gorchwyl yr Is-grŵp Cyllid, ynghyd â'r rhestr ddiweddaraf o'i aelodau, wedi cael ei gwblhau cyn y cyfarfod.

## Eitem 3: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid

3. Dechreuodd y Gweinidog Cyllid drwy ddisgrifio'r dull gweithredu yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddefnyddio wrth ddod allan o'r pandemig COVID-19. Y nod cyntaf fyddai sefydlogi ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus, cyn mynd ati'n â'i holl allu i ailadeiladu ein heconomi a'n cymdeithas ar sail newydd. Roedd angen i unrhyw adferiad o effeithiau'r pandemig ymateb hefyd i'r heriau sylweddol parhaus eraill megis y newid yn yr hinsawdd ac ymadawiad y DU â'r UE.

4. Nododd y Gweinidog Cyllid fod y rhagolwg ar gyfer Cynaliadwyedd Cyllidol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl y gostyngiad mwyaf mewn cynnyrch domestig gros ers 300 o flynyddoedd, yn ogystal â chynnydd mewn benthyciadau eleni i rhwng 13% a 21% o'r cynnyrch domestig gros, sy'n ddigynsail yn ystod cyfnod o heddwch. Rhoddodd amlinelliad o'r cyllid a oedd wedi cael ei roi i Gymru gan Lywodraeth y DU, gan nodi bod hwnnw'n darparu sicrwydd ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol o ran y cyllid a oedd ar gael i ymdrin â'r pandemig COVID-19. Dylai hyn roi sefydlogrwydd i lywodraeth leol yng Nghymru a hefyd i'r GIG.

5. Dywedodd y Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y byddai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn cael ei gynnal ddiwedd yr hydref, a ddylai ddarparu ar gyfer cyllideb refeniw tair blynedd a chyllideb cyfalaf pedair blynedd, er ei bod yn bosibl na fyddai hyn yn digwydd, ac unwaith yn rhagor y byddem yn cael cyllideb ar gyfer un flwyddyn yn unig. Byddai Llywodraeth Cymru yn pwyso i gael mwy o eglurder ynglŷn â'r amserlen a hefyd cyllid yr UE. Dywedodd nad oedd Trysorlys y DU wedi cytuno bod angen mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r gyllideb fel y gofynnwyd amdano, gan gynnwys hyblygrwydd i droi cyllid cyfalaf o £200 miliwn yn gyllid refeniw. Fodd bynnag, roedd canlyniadau'r adolygiad o gynlluniau cyfalaf wedi ei gwneud yn bosibl addasu, gan ddefnyddio £50 miliwn at ddibenion eraill, a byddai hwn yn cael ei ddyrannu maes o law.

6. Cytunodd y Cyng. Anthony Hunt fod angen pwyso ar Lywodraeth y DU o ran amserlen cyllid y dyfodol, gan y byddai llywodraeth leol yn parhau i geisio mwy o

sicrwydd mewn perthynas â chyllidebau yn y dyfodol. Diolchodd i Lywodraeth Cymru a’r Gweinidogion am y dull gweithredu a ddefnyddiwyd i ymgysylltu ynglŷn â’r pwysau sy’n gysylltiedig â’r pandemig COVID-19 hyd yn hyn, gan gadarnhau bod llywodraeth leol yn awyddus i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y modd hwn. Yn benodol, byddai llywodraeth leol yn croesawu parhau i gydweithio ar y pwysau cynyddol ar Gynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a chyfraddau casglu’r dreth gyngor. Cynigiodd gymorth gan lywodraeth leol i godi pryderon ynglŷn â chyllid cyfalaf a chyllid yr UE gyda Llywodraeth y DU. Nododd y Gweinidog Cyllid y pwyntiau hyn, gan ddweud bod Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gario cyllid drosodd i’r flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer cronfa wrth gefn Cymru a llywodraeth leol.

7. Dywedodd Alun Michael y byddai’r gostyngiad posibl yng nghyfraddau casglu’r dreth gyngor, a hefyd sylfaen drethu is (yn enwedig yn erbyn y rhagamcan blaenorol o gynnydd), yn peri problemau ar gyfer cyllido’r heddlu mewn perthynas â Grant Heddlu’r Swyddfa Gartref, yn ogystal â llai o refeniw o gyllid treth gyngor, ac y byddai angen cymryd camau i roi sylw i hyn er mwyn cynnal y lefelau plismona presennol. Gofynnodd y Gweinidog Cyllid i’r swyddogion gysylltu ag Alun Michael ynglŷn â hyn.

8. **Cam gweithredu: Debra Carter/ Judith Cole i gysylltu ag Alun Michael mewn perthynas â’r posibilrwydd o leihad yng nghyfraddau casglu’r dreth gyngor, sylfaen drethu is, a’r goblygiadau ar gyfer cyllido’r heddlu**

9. Dywedodd y Cyng. Carol Clement-Williams fod nifer o’r un materion sy’n effeithio ar yr heddlu ac ar yr awdurdodau lleol, megis cynnydd yn nifer y bobl sy’n ddigartref, cynnydd mewn cam-drin domestig, a materion sy’n ymwneud â’r trydydd sector a gofal plant. Bydd y materion hyn wedyn yn cael effaith mewn meysydd eraill, megis y GIG. Nododd y Gweinidog Cyllid y pwynt ynglŷn â digartrefedd, gan awgrymu y dylid trafod hyn mewn fforwm arall.

### Eitem 4: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan CLlC

10. Cymerodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) drosodd fel Cadeirydd. Ychwanegodd y Cyng. Andrew Morgan ei ddiolch yntau at y diolch a oedd eisoes wedi ei fynegi gan y Cyng. Hunt am yr ymgysylltu cadarnhaol a fu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Nododd fod y pecyn cymorth a oedd wedi ei roi ar waith – yn enwedig y £264 miliwn – wedi gwneud gwahaniaeth anferth i lywodraeth leol yng Nghymru a’r ffordd y mae wedi gallu darparu gwasanaethau ac ymateb i’r pandemig, gan ddweud y bydd yn parhau i wneud gwahaniaeth felly. Roedd yn edrych ymlaen at barhau â’r trafodaethau ynghylch rhoi hwb i lywodraeth leol yn y dyfodol. Diolchodd y Gweinidog i Jon Rae, Chris Llywelyn ac eraill a oedd wedi cyfrannu at y papur a oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran helpu Gweinidogion i ystyried materion yn ymwneud â chymorth i lywodraeth leol.

### Eitem 5: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething / Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan

11. Dechreuodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy fynegi ei ddiolch am yr ymateb cydweithredol i’r pandemig COVID-19. Roedd y rhan fwyaf o’r cyllid - ar gyfer cyllid sefydlogi’r GIG a’r pecyn llywodraeth leol - wedi dod o gyllid canlyniadol Llywodraeth y DU. Gan fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau PPE, gellid defnyddio rhan o’r cyllid hwn i gynllunio a pharatoi ar gyfer y posibilrwydd y byddai ail don, yn ogystal â’r pwysau ychwanegol a fyddai’n codi yn y gaeaf. Er gwaethaf y cyllid gan Lywodraeth y DU, pwysleisiodd y Gweinidog Iechyd fod y lefelau cyllid ar gyfer y GIG yn parhau’n gyfyngedig.

12. Soniodd y Gweinidog Iechyd am y strategaeth Profi Olrhain Diogelu yng Nghymru, a’r ffaith bod y sefyllfa’n well yng Nghymru nag yn Lloegr, yn rhannol oherwydd cyfraniad llywodraeth leol yn gynnar yn y broses. Byddai ystadegau’n cael eu cyhoeddi maes o law ynglŷn â’r cyflymder cysylltu, sef ystadegau a oedd hefyd yn gadarnhaol iawn. Roedd y Gweinidog Iechyd yn ddiolchgar i lywodraeth leol am y rhan yr oedd wedi ei chwarae yn y broses.

13. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinelliad o’r cyllid a roddwyd i awdurdodau lleol am y gofal i oedolion a ddarparwyd yn fewnol ac a gomisiynwyd, mewn ymateb i’r pandemig. Roedd dyraniad cychwynnol o £40 miliwn a oedd wedi ei ddarparu drwy’r gronfa galedi wedi cael ei ymestyn drwy fis Mehefin, ac roedd yr hawliadau a gyflwynwyd yn agos iawn at y gyllideb a oedd wedi cael ei neilltuo. Roedd y dyraniad ychwanegol at y gronfa galedi, sef £22 miliwn hyd at ddiwedd mis Medi, at ddibenion galluogi codiadau mewn ffioedd ar draws gofal i oedolion a rhoi sylw i leoedd gwag mewn cartrefi gofal a chostau na ragwelwyd.

14. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog Iechyd at y Grŵp Cyfeirio sy’n cynnwys swyddogion CLlC ac sy’n cael ei gadeirio gan uwch-swyddog yn Llywodraeth Cymru (Matt Jenkins), a gwaith y grŵp yn drafftio canllawiau’r cynllun a oedd wedi cael eu cyhoeddi ar 29 Gorffennaf. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd fod y canllawiau’n darparu ar gyfer gweithredu cyfnod pontio drwy fis Gorffennaf.

15. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Iechyd fod £22 miliwn arall wedi cael ei neilltuo ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol i gefnogi’r gofal y maent yn ei gomisiynu mewn cartrefi nyrsio. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd ei bod yn bwysig i’r awdurdodau lleol a’r byrddau iechyd lleol gydweithio i helpu i gynnal sefydlogrwydd y farchnad leol drwy ddefnyddio’r cyllid hwn mewn partneriaeth.

16. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wneir gan y rhaglen Talu am Ofal Cymdeithasol, yr oedd llywodraeth leol yn cael ei chynrychioli arni. Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o godi trethi i ariannu gwasanaethau cymdeithasol, ond roedd hyn yn edrych yn annhebygol yn yr hinsawdd bresennol. Mynegodd y Dirprwy Weinidog Iechyd ei diolch i lywodraeth leol am ddiogelu’r sector gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

17. Diolchodd y Cyng. Hunt i’r Dirprwy Weinidog Iechyd a’r Gweinidog Iechyd am eu cefnogaeth a’r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, a’u cydnabyddiaeth o’r gwaith a oedd wedi ei gyflawni i sicrhau PPE. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyhoeddusrwydd i berfformiad llwyddiannus y system Profi Olrhain

Diogelu. Roedd y Cyng. Morgan yn cytuno bod y gwasanaeth iechyd yn gweithio'n effeithiol gyda llywodraeth leol i ddarparu system Profi Olrhain Diogelu, a bod Cymru mewn sefyllfa fwy boddhaol o'i chymharu â Lloegr. Mynegodd bryder ynghylch y pwysau a allai godi yn y gaeaf, gan ofyn a oedd cyllid ar gyfer pwysau'r gaeaf yn y sector gofal cymdeithasol yn bosibl, ac os felly a ddylai gael ei bennu'n gynnar i gefnogi'r gwaith cynllunio y byddai angen ei wneud ar y cyd â'r GIG.

**Eitem 6: Y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams**

18. Ymddiheurodd y Gweinidog am y ffaith nad oedd y Gweinidog Addysg yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, ond rhoddodd ddiweddariad cryno am hynt ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyflogau athrawon, sy'n cynnig gweithredu codiad o 3.1%, yn unol â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ac sy'n uwch na'r 3.0% a argymhellwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB). Byddai'r ymgynghoriad ysgrifenedig â rhanddeiliaid allweddol yn cau ar 22 Medi, ac ar ôl hynny roedd y Gweinidog yn bwriadu dod â'r eitem hon yn ôl gerbron yr Is-grŵp Cyllid.

19. **Cam gweithredu: Dod ag eitem ar gyflogau athrawon yn ôl gerbron yr Is-grŵp Cyllid, ar ôl i'r ymgynghoriad gau, a (paragraff 28) gwahodd y Gweinidog Addysg i gyfarfod yr Is-grŵp Cyllid a gynhelir ym mis Medi.**

20. Nododd y Gweinidog y cyllid a oedd wedi cael ei roi i lywodraeth leol ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan gynnwys £1.28 miliwn ar gyfer y pythefnos cyntaf o bontio i'r flwyddyn ysgol newydd; £2.7 miliwn ar gyfer cyfoethogi dros yr haf; a'r cyllid a oedd wedi ei gynnwys yn y £264 miliwn ar gyfer llywodraeth leol i sicrhau bod ysgolion yn cael eu glanhau'n fwy trylwyr.

21. Hefyd cyfeiriodd y Gweinidog at y drafodaeth barhaus ynghylch cyllid ysgolion yn ehangach, a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Luke Sibieta. Awgrymodd y dylid trafod hyn rywle arall.

**Eitem 7: Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu**

22. Cyflwynodd Simon Edwards adroddiad diweddaru gan yr Is-gŵp Dosbarthu a oedd yn disgrifio cylch gwaith y grŵp ar gyfer 2020, ochr yn ochr â'r cynnydd yn erbyn y rhaglen waith fel y'i cytunwyd gan yr Is-grŵp Cyllid ym mis Chwefror. Argymhellwyd y dylid rhewi nifer o setiau data yn y setliad er mwyn osgoi unrhyw effeithiau niweidiol a allai godi yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol fesul cam. Byddai'r Is-grŵp Dosbarthu yn parhau i fonitro setiau data y gallai'r pandemig COVID-19 fod wedi effeithio arnynt. Rhoddwyd gwybod i'r grŵp am yr effaith sylweddol bosibl ar ddosbarthu mewn perthynas â diweddaru'r flwyddyn sylfaen ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth yn y setliad eleni, a bod yr Is-grŵp Dosbarthu'n ystyried papurau ar gyflwyno data fesul cam.

23. Dywedodd y Cyng. Hunt fod llywodraeth leol am geisio cymaint o sefydlogrwydd â phosibl yn y setliad a oedd ar fin digwydd.

**Eitem 8: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

24. Yn ychwanegol at ei sylwadau cynharach am yr heriau a allai godi yn sgil lleihad mewn refeniw treth gyngor, disgrifiodd Alun Michael y pwysau cynyddol y mae heddluoedd yn eu hwynebu o ganlyniad i’r pandemig. Mynegodd ei ddiolch am y gwaith a gyflawnir gan Gynghorau Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd ar Grŵp Llywio’r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, ac am gyfraniad cydweithwyr mewn llywodraeth leol at y gwaith hwn a llawer o feysydd gwaith eraill.

25. Diolchodd y Gweinidog i Alun Michael am ei sylwadau ynghylch y pryderon a rennir ynglŷn â’r cyllid a ddaw o gasglu’r dreth gyngor.

**Eitem 9: Unrhyw fater arall**

26. Croesawodd y Gweinidog yr ymateb unedig y byddai Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru yn ei gynnig yn ystod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

27. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, yn bresennol yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ym mis Medi. Byddai’n bresennol fel rhan o’r rhaglen presenoldeb Gweinidogion yn yr Is-grŵp Cyllid. Awgrymodd y Gweinidog hefyd y dylid ceisio presenoldeb gan y Gweinidog Addysg.

28. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 30 Medi, drwy MS Teams.